Sinfonia
Cymru

Sinfonia Cymru

Catrin Finch
Patrick Rimes
Hanan Issa

+ **Corau Lleol**
Local Choirs



Dathlu'r
Nadolig Cymreig
A Welsh Christmas
Celebration

ROYAL WELSH COLLEGE
OF MUSIC & DRAMA
COLEG BRENHINOL
CERDD A DRAMA CYMRU

NEUADD GOFFA PONTYBEREM

Pontio
gan Brifysgol Bangor
by Bangor University

CANOLFAN Y CELFYDDYDAU
ABERYSTWYTH ARTS CENTRE



Sinfonia Cymru: Dewr, disglair a ledled Cymru

Ni yw cerddorfa talent ifanc Cymru, cartref i gerddorion proffesiynol a deinamig o Gymru a'r byd, pob un dan 30 oed. O berfformio cerddoriaeth glasurol i gyfansoddiadau newydd a chydweithio gyda cherddorion enwog a chyffrous, beth bynnag ry'n ni'n ei wneud, byddwn ni'n chwarae gydag angerdd, cywirdeb ac ysbryd anturus.

Byddwn ni'n perfformio lle mae cerddoriaeth o bwys: yng nghanol cymunedau Cymru. Byddwn ni yn y mannau ble mae'r gynulleidfa'n teimlo'n gartrefol; canolfannau celfyddydol, neuaddau cyngerdd, tafarndai, neuaddau pentref, cartrefi gofal, ysgolion a thu hwnt.

Ry'n ni'n cefnogi ein cerddorion ar ddechrau eu gyrfaoedd proffesiynol. Pan mae nhw'n ymuno, ry'n ni'n eu helpu i dyfu a chymryd yr awenau. Y canlyniad? Perfformiadau o ansawdd eithriadol, lle bynnag ry'n ni'n chwarae.

Bob blwyddyn rydym yn cydweithio gyda artistiaid ysbrydoledig fel Catrin Finch, Jess Gillam ac Abel Selaocoe, gan gyfuno cerddoriaeth glasurol â chymysgedd cyfoethog o arddulliau. Ry'n ni hefyd yn cynnal gweithdai am ddim mewn ysgolion a cholegau, gan feithrin y genhedlaeth nesaf o dalent cerddorol yng Nghymru.

O Ganolfan y Celfyddydau Aberystwyth i Theatr Clwyd, a'n taith Cymuned flynyddol, ry'n ni'n dod â cherddoriaeth i bob cwr o Gymru. Os ydych chi'n byw yma, mae'n siŵr ein bod ni'n perfformio yn rhywle lleol yn fuan. Ymunwch â'n rhestr e-bost i gael y wybodaeth ddiweddaraf. Gobeithio cawn eich cwrdd mewn cyngerdd yn fuan.

Sinfonia Cymru: Bold, brilliant and all over Wales



We are Wales' orchestra of young talent, a collective of dynamic professional musicians under 30, from Wales and beyond. Whether performing classical masterpieces, new compositions, or collaborations with artists from folk, jazz, and beyond, we play with passion, precision, and a spirit of adventure.

You'll find us where music matters most: in the heart of Welsh communities. We perform in concert halls, village pubs, schools, and care homes across Wales. We support our musicians at the start of their careers, helping them curate concerts and take the lead. The result? Performances of exceptional quality, wherever we play.

Every year, we collaborate with inspiring artists like Catrin Finch, Jess Gillam, and Abel Selaocoe, blending classical music with a rich mix of styles. We also run free workshops in schools and colleges, nurturing the next generation of Welsh talent.

From Aberystwyth Arts Centre to Theatr Clwyd, and our annual Cymuned tour, we bring music to every corner of Wales. If you live here, we're sure to be performing near you soon. Join our email list for updates and we hope to see you at a concert soon.

Cefnogwch ein gwaith | Support our work

Oeddet ti'n gwybod ein bod ni'n elusen gofrestredig? Mae'r profiadau rydym yn eu darpau yn bosib diolch i gefnogaeth gan Gyngor y Celfyddydau Cymru a'n noddwyr am eleni. I sicrhau dyfodol disglair i'n cynulleidfaoedd a'n cerddorion, gallwch gefnogi trwy roi cyfraniad trwy ein tudalen 'Cefnogi' ar ein gwefan neu cysylltwch â caroline@sinfonia.cymru i drafod rhoi cyfraniad i'r gerddorfa yn eich ewyllys.

Did you know that we're a registered charity? The experiences we create are only made possible by the continued support of Arts Council Wales and our sponsors for this year. To ensure a bright future for our audiences and our musicians, you can support us by donating through the 'Support' page on our website or contact caroline@sinfonia.cymru to talk about leaving Sinfonia Cymru a gift in your will.

Am wybodaeth bellach ac i danysgrifio i'n cylchlythyr, ewch i:
For more information and to sign up to our newsletter, visit:
www.sinfonia.cymru

@sinfoniacymru

Plygain

Mae'r Plygain (o'r Lladin am "ganiad y ceiliog") yn draddodiad Cymreig unigryw sy'n dyddio'n ôl i'r Oesoedd Canol. Yn wreiddiol, câi ei gynnal mewn eglwysi gwledig rhwng tri a chwech o'r gloch ar fore'r Nadolig i ddathlu dyfodiad Dydd Nadolig, a dychweliad y goleuni ar ôl cyfnod o dywyllwch.

Mae'r gwasanaeth yn agor gyda gweddïau a darlleniadau, cyn symud ymlaen i'r brif ran lle bydd cantorion neu grwpiau bychan – yn aml, teuluoedd, cymdogion neu ffrindiau – yn cymryd eu tro i ganu carolau. Mae pob perfformiad yn ddigyfeiliant, ac fel arfer mewn harmoni 3-rhan, gan ddilyn traddodiad a drosglwyddwyd dros sawl cenhedlaeth. Does yna ddim trefn arbennig – mae pobl yn canu pan fyddant yn teimlo'n barod, gan roi naws ymlaciol, byrfyfyr i'r gwasanaeth, a theimlad cymunedol cryf.

Yn hanesyddol, roedd traddodiadau'r Plygain yn wahanol ledled Cymru: yn sir Ddinbych, deuai ffrindiau at ei gilydd i ddathlu, canu, a dawnsio i gerddoriaeth telyn; mewn ardaloedd gwledig, byddai cymdogion yn gwneud taffi triog ac yn addurno eu tai ag uchelwydd a chelyn; mewn trefi megis Talacharn, Llanfyllin a Dinbych-y-Pysgod, byddai'r dathliadau'n cychwyn gyda gorymdaith dan olau ffaglau, gyda dynion ifanc yn arwain yr offeiriad o'i gartref i'r eglwys tra bod pobl yn canu a chwythu cyrn-gwartheg. Er i'r arferiad ddirywio yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, mae'r Plygain yn dal yn fyw heddiw, yn enwedig yng Nghanolbarth a Gogledd Cymru, lle mae cymunedau'n parhau i ddod at ei gilydd bob Nadolig.

Er gwaethaf y gwahaniaethau lleol, mae'r Plygain bob amser wedi cyfleu'r un ysbryd: ffydd, cyfeillach, a dod â phobl at ei gilydd drwy ganu yn nhawelwch yr oriau mân. Mae perfformiad heno wedi ei ysbrydoli gan y cynhesrwydd, yr adlewyrchu, a'r teimlad o berthyn mae'r traddodiaadau hyn yn eu creu. Cafodd ei gomisiynu gan Sinfonia Cymru yn dilyn syniad a gyflwynwyd gan Catrin Finch, unawdydd a chyd-gyfarwyddwr y noson, i greu profiad sy'n dathlu traddodiadau Nadoligaidd yng Nghymru; gweithiodd Catrin gyda Patrick Rimes i greu rhestr sy'n cyfosod carolau Plygain traddodiadol, a berfformir gyda chorau lleol, ag alawon Nadoligaidd poblogaidd o draddodiadau eraill. Ymatebodd y bardd Hanan Issa i'r casgliad hwn gyda geiriau sy'n rhoi llais i atgofion a phrofiadau o'r Nadolig yng Nghymru, ddoe a heddiw. Mae'r traddodiadau a ddathlwn yn y perfformiad hwn, boed yn gysegredig neu'n dymhorol, yn teimlo'n hynod bersonol ac ar yr un pryd yn gyfarwydd i bawb, gan alluogi pob un ohonom i ddod o hyd i ryw ran ohonom ni ein hunain ym mhob stori ac ym mhob cân.



Plygain (from the Latin for "the crowing of the cock") is a uniquely Welsh Christmas tradition dating back to the Middle Ages. It originally took place in rural churches between three and six o'clock on Christmas morning, celebrating the arrival of Christmas Day and the return of light after darkness.

The service starts with prayers and readings, then moves to the main event: singers or small groups – often families, neighbours or friends – take turns singing carols. Each performance is unaccompanied and usually in three-part harmony, passed down through generations. There's no set order; people sing when they feel ready, which gives the service a relaxed, spontaneous feel and a strong sense of community.

Historically, Plygain traditions looked different across Wales: in Denbighshire, friends gathered to celebrate, sing and dance to harp music; in rural areas, neighbours made treacle toffee and decorated houses with mistletoe and holly; in towns like Laugharne, Llanfyllin and Tenby, celebrations began with a torch-lit procession, with young men leading the priest from his house to the church while people sang and blew cow-horns. Though it declined in the nineteenth century, Plygain continues today particularly across Mid and North Wales, where communities still gather each Christmas.

Despite local differences, Plygain has always carried the same spirit: faith, fellowship, and bringing people together through song in the quiet of early morning. Tonight's performance is inspired by the warmth, reflection and sense of belonging these traditions create. It was commissioned by Sinfonia Cymru following an approach from tonight's soloist and co-director Catrin Finch to create an experience that celebrates Welsh Christmas traditions; she has worked with Patrick Rimes to create a set list that juxtaposes traditional Plygain carols, performed with local choirs, with popular Christmas tunes from other traditions. Poet Hanan Issa has responded to this collection with words that capture the memories and experiences of Christmas in Wales, past and present. The traditions we celebrate in this performance, whether sacred or seasonal, feel both distinctly personal and universally familiar, allowing each of us to find something of ourselves in every story and every song.



Catrin Finch

Mae Catrin Finch yn un o chwaraewyr telyn gorau'r byd, ac yn un o gerddorion mwyaf amryddawn a dawnus ei chenhedlaeth. Yn anturiaethwr cerddorol naturiol, mae gyrfa Catrin yn cynnwys perfformiadau unigol gyda cherddorfeydd gorau'r byd ac, yn fwy diweddar, cydweithrediadau a recordiadau arobryn a syfrdanol gyda rhai o gerddorion gorau'r byd gan gynnwys Cimarrón (Colombia), Toumani Diabate (Mali), Seckou Keita (Sengal) ac Aoife Ní Bhriain o Iwerddon. Ar hyn o bryd, Catrin yw Pennaeth y Delyn yn yr Academi Gerdd Frenhinol, Llundain.



Catrin Finch is one of the world's greatest harp players, and one of her generation's most versatile and gifted musicians. A natural musical adventurer, Catrin's career includes both solo performances with the world's top orchestras and, more recently, sensational award-winning collaborations and recordings with some of the greatest global musicians including Cimarrón (Colombia), Toumani Diabate (Mali), Seckou Keita (Sengal) and Ireland's Aoife Ní Bhriain. Catrin is currently Head of Harp at the Royal Academy of Music, London.



Patrick Rimes

Mae Patrick Rimes yn gerddor, cyfansoddwr ac addysgwr. Fe ddysgodd y ffidil yn yr arddull draddodiadol yn sesiynnau gwerin byrlymus Eryri, cyn astudio'r ffidil a fiola glasurol ym Mhrifysgol Leeds, Janáčkovo Akademie Muzických yn y Weriniaeth Siec a Coleg Cerdd a Drama Caerdydd. Mae wedi teithio'n helaeth ledled Prydain a'r byd gyda grwpiau fel Calan a VRï, ac wedi rhyddhau sawl albwm. Bu'n perfformio fel unawdydd gyda Cherddorfa BBC Cymru, City of London Sinfonia a Sinfonia Cymru. Perfformwyd ei weithiau gan artistiaid fel Orchestre Symphonique de Bretagne a'r West Virginia Symphony, ac ar y radio. Yn 2016, enillodd BAFTA am gywaith gyda Bryn Terfel. Mae cerddoriaeth draddodiadol yn rhan anatod o'i waith, mae wrth ei fodd yn rhannu cerddoriaeth Gymreig gyda'i fyfyrwyr yng Ngholeg Cerdd a Drama Caerdydd.



Patrick Rimes is a musician, composer, arranger and educator. Born and raised in the thriving traditional music heartlands of Eryri, he studied classical violin and viola at Leeds University, Janáčkovo Akademie Muzických in Brno, Czech Republic and the Royal Welsh College of Music and Drama. As a founder member of both Calan and VRï he has toured extensively in the UK and abroad, and released multiple albums. He's appeared as a soloist with the BBC National Orchestra of Wales, City of London Sinfonia and Sinfonia Cymru. His works have been performed by the Orchestre Symphonique de Bretagne, BBC National Orchestra of Wales and West Virginia Symphony, also on radio. In 2016 he won a BAFTA for a television programme with Bryn Terfel. Traditional music is always at the heart of his practice. He enjoys sharing the joys of Welsh music with his students at the Royal Welsh College of Music and Drama.

Hanan Issa

Awdur, crëwr ffilmiau ac artist o gefndir Cymreig-Iracaidd yw Hanan. Mae ei chyhoeddiadau'n cynnwys ei chasgliad o farddoniaeth, *My Body Can House Two Hearts*; *Welsh Plural: Essays on the Future of Wales*, a'i blodeugerdd o gerddi i blant, *And I Hear Dragons*. Perfformiwyd ei monolog arobryn *With Her Back Straight* yn y Bush Theatre fel rhan o'r *Hijabi Monologues*. Mae hi'n rhan o ystafell yr ysgrifenwyr ar gyfer cyfres lwyddiannus Channel 4, *We Are Lady Parts*. Ymddangosodd ei gwaith ar ITV Wales, BBC Radio 3 a Radio 4, ac yn y TATE Lerpwl a Chanolfan y Barbican. Mae ei ffilm fer *The Golden Apple* – comisiwn gan Ffilm Cymru/BBC Wales – ar gael ar iPlayer. Roedd yn Gymrawd Rhyngwladol Gŵyl y Gelli yn 2023, a hi yw Bardd Cenedlaethol Cymru hyd 2027.



Hanan is a Welsh-Iraqi writer, filmmaker, and artist. Her publications include her poetry collection *My Body Can House Two Hearts*, *Welsh Plural: Essays on the Future of Wales* and her children's poetry anthology *And I Hear Dragons*. Her winning monologue *With Her Back Straight* was performed at the Bush Theatre as part of the Hijabi Monologues. She is part of the writers room for Channel 4's award-winning series *We Are Lady Parts*. Her work has been featured by ITV Wales, BBC Radio 3, Radio 4, TATE Liverpool, and the Barbican Centre. Her short film *The Golden Apple* - a Ffilm Cymru/ BBC Wales commission is available on iPlayer. She was the 2023 Hay International Fellow and is the current National Poet of Wales until 2027.



Corau Lleol | Local Choirs

Hoffem gyfleu ein diolch diffuant i'r corau gwych sydd wedi ymuno â ni ar y daith hon. Rydym yn hynod ddiolchgar am eich ymroddiad i'r prosiect hwn – bu'n bleser pur cael cydweithio gyda chi i gyd.

A special thank you to the wonderful choirs who have joined us on this tour. We are very grateful for your dedication to the project, it has been a joy to collaborate with you all.

Pontyberem: **Ysgol Gyfun Gymraeg y Strade**, dan arweiniad Christopher Davies

Caerdydd: **Only Boys Aloud**, dan gyfarwyddyd Iori Haugen (Arweinydd) ac **Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr**, dan arweiniad Angharad Evans (Pennaeth Cerdd)

Bangor: **Côr Ieuenctid Môn**, dan arweiniad Mari Lloyd Pritchard

Aberystwyth: **Elizabethan Madrigal Singers** dan gyfarwyddyd Anna Pennington a Max Rycroft (Arweinyddion), gyda diolch i Dmytro Horodnychyi (Cyfeilydd yr Ymarferion) a Phwyllgor y Cantorion Madrigalau Elisabethaidd.

Pontyberem: **Ysgol Gyfun Gymraeg y Strade**, led by Christopher Davies

Cardiff: **Only Boys Aloud**, led by Iori Haugen (Conductor) and **Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr**, led by Angharad Evans (Head of Music)

Bangor: **Anglesey Youth Choir,** led by Mari Lloyd Pritchard

Aberystwyth: **Elizabethan Madrigal Singers** led by Anna Pennington and Max Rycroft (Conductors), with thanks to Dmytro Horodnychyi (Rehearsal Pianist) and the Elizabethan Madrigal Singers Committee.

Rhaglan | Programme

Mae'r perfformiad heno'n cynnwys carolau traddodiadol a cherddoriaeth a drefnwyd yn arbennig ar gyfer Sinfonia Cymru gan Patrick Rimes. Mae'r rhestr lawn o ddarnau, yn ogystal â thrawsgrifiadau dwyieithog o eiriau Hanan a geiriau'r carolau, ar gael ar ein gwefan.

Tonight's performance features traditional carols and music arranged specially for Sinfonia Cymru by Patrick Rimes. The full list of pieces, as well as bilingual transcriptions of Hanan's words and the carol lyrics, can be found on our website.

Perfformwyr Sinfonia Cymru
Our Sinfonia Cymru Players

Ffidil | Violin



Georgina MacDonell Finlayson

Soddgrwth | Cello



Edward Mead

Ffliwt | Flutes



Mina Middleton



Carys Gittins

Horn | Corn



Hannah Williams

Fiola | Viola



Hannah Lowri Roberts

Bas Dwbl | Double Bass



Georgia Lloyd

Clarinet



Isha Crichlow

Offerynnau Taro | Percussion



Harry Lovell-Jones



Patrick Davies

Bwrdd Cyfarwyddwyr | Board of Directors

Russell Bright
Llinos Madeley
Jo Marriott
Catrin Plumley
Wiard Sterk
Cadeirydd | Chair
Aled Tudor
Ali Vennart
Simone Willis Tansley

Tîm Rheoli | Management Team

Heulwen Davies
Ymgynghorydd Marchnata (Llawrydd) | Marketing Consultant (Freelance)

Joseph Evans
Rheolwr Cyffredinol | General Manager

John Holmes
Strategydd Marchnata (Llawrydd) | Marketing Strategist (Freelance)

Faye Jones
Cynorthwy-ydd Cyngherddau a Phrosiectau | Concerts and Projects Assistant

Becky Mercer
Cydlynydd Cymunedau a Phartneriaethau | Communities & Partnerships Coordinator

Ella Roberts
Cynorthwy-ydd Marchnata | Marketing Assistant

Caroline Tress
Prif Weithredwr | Chief Executive

Cymrodorion Artistig | Artistic Associates

Haim Choi
Arweinydd | Leader

Gareth Jones
Sylfaenydd | Founder

Simmy Singh
Cydymaith Creadigol | Creative Associate

Dod yn fuan / Coming soon 2026



Folk, Fire & the Cello

Sinfonia Cymru + Laura van der Heijden

O alawon cynhyrfus Dobrinka Tabakova i egni crai Bartók, dyma gyngerdd sy'n daith wyllt trwy weadau daearol a chyferbyniadau cyffrous.

From the stirring melodies of Dobrinka Tabakova to the raw energy of Bartók, this concert is a wild journey through earthy textures and thrilling contrasts.

26.02.2026 **Neuadd Goffa Criccieth** Memorial Hall

27.02.2026 **Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth** | Aberystwyth Arts Centre

28.02.2026 **Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, Caerdydd** | Royal Welsh College of Music and Drama, Cardiff

Tocynnau | Tickets: sinfonia.cymru

Sinfonia Cymru + Soprano Julieth Lozano Rolong

Dewch i brofi America Ladin trwy gerddoriaeth, barddoniaeth a chaneuon lliwgar.

A Latin American experience with vibrant music, poetry and song.

24.04.2026 **Rhosygilwen, Aberteifi** | Cardigan

01.05.2026 **Theatr Clwyd, Yr Wyddgrug** | Mold

02.05.2026 **Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, Caerdydd** | Royal Welsh College of Music and Drama, Cardiff



THE HAWORTH TRUST
SUPPORTING NEW ARTISTS

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government